# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**<u>19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Hydref 14eg 2025</u>**

**<u>Cofnodion</u>**

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Dr Melfyn Edwards, Cyng. Karena Owens, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Glenda Murray. Elfyn Lewis (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:**
   Cyng. Michael Roberts, Cyng. Edward Naish, Cyng. Llywelyn Rhys
   **Absennol:**
   Neb.
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Medi 2025**
   Cafwyd yn gywir. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Dr Melfyn Edwards yn eilio.

4. **Adroddiad y Cadeirydd:**
   Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth y cyn-gynghorydd Bethan Rees-Jones a wnaeth cyfraniad mor fawr i dref Porthmadog.
   **Teyrnged Y Cyng. Alwyn Gruffydd i'r diweddar Bethan Ogwen Rees Jones:**
   "Ar ddydd cynta'r mis y daeth y newydd fod y Cynghorydd Bethan Ogwen Rees Jones wedi ein gadael yn 85 mlwydd oed ar ôl cystudd hir a phoenus. Hi oedd mam y Cyngor yma ar ôl bod yn aelod ffyddlon ohono ers saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Bu'n Gadeirydd ddwy os nad tair gwaith a go brin fod unrhyw ddatblygaid wedi bod yn y dref yma yn ystod yr hanner can mlynedd ddiwethaf heb iddi fod yn rhan blaenllaw ohono. Mae'r rhestr yn un faith. Codi'r Ganolfan, er enghraifft, ac yna sefydlu'r Clwb Chwaraeon ar y Traeth lle bu'n Gadeirydd tan yn ddiweddar iawn. Bu'n sylfaenydd ac yn Gadeirydd hefyd ar Gyfeillion Cadw Tremadog ac yn Gadeirydd Pwyllgor Efeillio'r Cyngor wrth i ni fraeniaru'r tir gyda'n cyfeillion ar Gyngor Tref Wiclo. Ac yna daeth dathliadau mileniwm a dau ganmlwyddiant codi'r Cob. Bu'r Cynghorydd Bethan Rees Jones yn geffyl blaen yn y pethau yma i gyd a mwy; yn allweddol i'w llwyddiant ac yn waddol i'w hymroddaid i'r fro hon dros y blynyddoedd.
   Gyda'i gwreiddiau yn Morfa Nefyn bu'n athrawes Ymarfer Corff ym Mhwlheli ac yn athrawes hanes ym Mlaenau Ffestiniog. Cafodd gap am chwarae hoci dros Gymru gan chwarae yn erbyn Lloegr – ac ennill fel yr oedd hi mor falch o'n hatgoffa. Oherwydd roedd hi'n Gymraes i'r carn ac yn aelod gweithgar o Blad Cymru'n lleol. Roedd hi'n "byw rhyddid fesul brawddeg".
   Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf felly â'r Cynghorydd Llewelyn Rhys a'i ddau frawd, Bleddyn Rhys a Rhodri Rhys, a'u teuloedd, o golli mam a nain ofalus a charedig.".

   Mynegwyd pryder bod Cyngor Gwynedd am newid bocsus plastig ail-gylchu glas am fagiau defnydd hesian. Buasai hyn o bosib yn creu trafferthion wrth eu symud yn enwedig i bobl hyn. Roedd rhaid hefyd ystyried am ba hyd y buasent yn parhau.

   Mynychodd Y Cadeirydd cyfarfod i drafod planiau i leoli mast ffon symudol yn Morfa Bychan.

DRAFT

Nodwyd bod amserlen bysiau lleol yn newid.

5. **Adroddiad y Clerc:**

**Cae Pawb.**
Angen trefnu dyddiad i archwiliad yr hydref o'r plotiau yn Cae Pawb.
**Cytunwyd ar Dachwedd 15fed am 10 o'r gloch**.
Ni ddaeth neb ymlaen i fod yn Gadeirydd ac Ysgrifennydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb yn ystod y cyfarfod ar Hydref 11fed.
Richard Williams yn holi os gellir gwneud rhywbeth am y Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam) sydd yn bla yno a'r Gwylanod Penwaig sydd yn nythu ar shed cyfagos ac yn ymosod ar y garddwyr yn ystod y cyfnod nythu.
**Cytunwyd i'w ail-drafod blwyddyn nesaf pan mae'r problemau yn bodoli.**
**Cytunwyd mai dim mater i'r Cyngor Tref ydoedd yn benodol ond i Gyfoeth Naturiol Cymru (parthed Jac y neidiwr) a pherchennog shed cyfagos (parthed gwylanod).**

**Cronfa Gwynedd Ni.**
Fel rhan o'r cais mae rhaid cael caniatad Cyngor Gwynedd o'r lleoliad i bob mainc.
Mae'r cais yma wedi ei gyflwyno. Pedair mainc yn Stryd Fawr Porthmadog a dwy ym Morth-y-Gest. Rac beiciau yn Maes Parcio Llyn Bach. Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Gyngor Gwynedd.

**Bryn Coffa – Sul y Cofio.**
Popeth wedi ei drefnu. Trefniadau cau lon dros dro gyda Cyngor Gwynedd wedi eu cwblhau a'r Heddlu lleol wedi ei hysbysu ac am gynorthwyo ar y diwrnod.
Bydd y Clerc yn cyd-weithio gyda'r Llen Brydeinig ar y diwrnod. Mae'r coed ar Fryn Coffa wedi eu tocio gan Pearsons. Y Clerc a'r Cadeirydd yn hapus gyda'r gwaith. Bydd angen i'r Lleng Brydeinig yrru weiran i lawr o'r groes i'r groes fechan yn y gwaelod er mwyn sicrau cysylltiad i'r offer sain. Bydd angen tacluso y safle ychydig o ddyddiau cyn Sul y Cofio.

**Cae Chwarae Bodawen.**
Bydd archwiliad arall o'r bywyd gwyllt ar y safle gan fishergerman (National Grid) mis yma.

Archwiliad o'r offer yn y Parc Chwarae. Argymhelliad gan G.L. Jones bod angen newid dau sedd ar y siglen ar frys ar gost o £700. Bydd rhaid penderfynnu os ydi hi werth gwario hyn ar offer o ystyried bydd yr offer yn mynd o'r safle yn y misoedd nesa.
**Penderfynwyd peidio a gwario £700 ar seddi newydd i'r siglen ond yn hytrach rhoi arwyddion ar y siglen ei bod hi ddim yn saff i'w ddefnyddio.**

**Trefniadau Nadolig.**

Coed Nadolig Port, Morfa Bychan, Borth-y-Gest a Tremadog wedi eu harchebu.

Goleuadau y Nadolig. Trefniadau gyda'r trydanwr JR Electrics yn bwrw ymlaen.

**Siambr Fasnach.**

Cyfarfod ar Hydref 7fed. 15 yn bresennol. Dim ond 7 o gynrhychiolwyr o fusnesau lleol. Cyfarfod arall am ei drefnu yn ystod Mis Tachwedd.

**Llochesi Bysiau.**

Wedi cael dyfynbris gan Designersignsnorthwales am drwshio y paneli yn y lloches bws wrth y Steshon. Dyfynbris am DDAU panel. Dros £700 (gweler gohebiaeth). Argymell ein bod yn derbyn.

Dyfynbris hefyd am paneli alwminiwm. (gweler gohebiaeth).

**Penderfynwyd bod cael paneli alwminiwn yn rhy gostus er y buasai yn safio arian yn y cyfnod hir.**

**Penderfynwyd i fynd ymlaen gyda'r gwaith o drwshio y difrod i'r lloches bws.**

**6. Datgan diddordeb:**
Dim.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO:**
Rhif Cais: C25/0691/44/CR (wedi ei ebostio 7/10/2025)
Lleoliad: Y Ship Inn, 14 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP
Bwriad: Addasiadau mewnol i'r bar a'r toiledau.
**Dim gwrthwynebiad.**

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**
Trefnu asesiad i'r Clerc erbyn diwedd Mis Tachwedd (Asesiad 6 mis).
**I'w drefnu yn ystod Mis Tachwedd.**
Ymddiswyddodd Y Cynghorydd Trevor Jones ar Fedi 21ain. Hysbyswyd yr awdurdod perthnasol. Hysbyswyd bod Sedd Wag ar Gyngor Tref Porthmadog.
**Y Clerc i ysgrifennu at Trevor Jones i ddiolch iddo am ei amser a'i wasanaeth fel Cynghorydd ar Gyngor Tref Porthmadog**.

**9. MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn beth sydd wedi digwydd i arwydd Stryd Dulyn yn Nhremadog o ystyried arwyddocâd hanesyddol y stryd hon yn hanes datblygiad Tremadog a Phorthmadog. (Cyng. Alwyn Gruffydd).
**Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i drafod y mater ac i roi pwysau arnynt i roi yr arwydd yn ol yn ei le.**

Cynnig bod Cyngor Tre Porthmadog yn ymchwilio i'r posibiliadau o droi'r hen gwrt tenis yn y Parc yn ardal ar gyfer cwrt pêl-rwyd/cae pêl droed (MUGA). (Cyng. Karena Owens).

Cynnig bod Cyngor Tre Porthmadog yn ymchwilio i ehangu'r offer sydd ar gael ym Mharc Porthmadog fel bod mwy o adnoddau sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd, gan gynnwys offer cynhwysol i blant ag anableddau ar gael. (Cyng. Karena Owens)

**Penderfynwyd i gysylltu gyda pherchennog y safle, sef Cyngor Gwynedd, i drafod y posiblrwydd o wella adnoddau'r Parc gan ganolbwyntio ar yr hen gwrt tenis.**

Cynnig bod Cyngor Tre Porthmadog yn cydnabod cyfraniad ein bardd lleol, Eifion Wyn, trwy drefnu bod cerflun ohono yn cael ei gomisiynu i'w goffau erbyn 13eg o Hydref 2026. (Cyng. Karena Owens).

**Penderfynwyd i sefydlu is-bwyllgor (Cynghorwyr Karena Owens, Glenda Murray. Carol**

DRAFT

**Hayes) i drefnu digwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant marwolaeth Eifion Wyn.**

### 10. GOHEBIAETH: Rhestr Aros am Ateb

Stephen Williams (Addysg) Mehefin 22, 2025. Ebost yn cynnig iddo ddod i gyfarfod Y Cyngor Tre i drafod sefydlu Clwb Ieuenctid.

**Penderfynnu ail-gysylltu ag ef.**

### 11. GOHEBIAETH:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Pauline Williams | Parthed Noson Goleuo Port<br>Cytuno ar y ffi o £500 i drefnu digwyddiadau Nadolig ac arian ychwanegol i drefnu adloniant ar y noson. |
| 2 | Designersignsnorthwales | Lloches Bws Steshon. Eglurhad o’r difrod i’r lloches.<br>Penderfynu mynd ymlaen a thrwshio’r lloches bws. |
| 3 | Patricia Ward | Cais am le parcio i tacsis yn Y Parc.<br>Penderfynu ei anfon i Gyngor Gwynedd. |
| 4 | Bryn Pritchard-Jones | Ymateb i broblem carafanets ar Draeth Creigddu Morfa Bychan.<br>Gwahodd Bryn Pritchard-Jones i gyfarfod Y Cyngor Tre. |

### <u>12. MATERION ARIANNOL</u> :

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyngor Gwynedd | Praesept 25/26 | £36829.15 |
| | FisherGerman/Grid Cymdeithasol | Cae Chwarae Bodawen<br>(Tal am wneud archwiliad o’r safle) | £750 |
| | HSBC | Llog Banc | £45.96 |

**Biliau i’w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Medi 2025 | £60.67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Medi 2025 | £1,408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Medi 2025 | £352.14 |
| 4 | Pearsons Torrwyr Coed | Gwaith torri coed Bryn Coffa | £624.00 |
| 5 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Treth draenio Cae Pawb | £5.84 |
| 6 | RJ Electrics | Goleuadau Nadolig | £9732.00 |
| 7 | HSBC | Costau bancio | £2.28 |
| 8 | HSBC | Costau sieciau | £0.80 |
| 9 | GL Jones | Archwiliad Offer Cae Chwarae Bodaen | £346.80 |

DRAFT

Cymeradwywyd y taliadau. Cynnig. Cyng. Dr Melfyn Edwards. Eilio – Cyng. Jeremy Davies.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol).

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Elfyn Lewis (Clerc)
19/10/25

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFFT